Gogledd Ddwyrain Cymru
Dysgu Cymunedol i Oedolion
Adult Community Learning
North East Wales

**Eich cefnogi drwy eich taith ddysgu**

Mae gan Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Gogledd Ddwyrain Cymru weithdrefnau i nodi a ble bo'n briodol, i asesu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ddatgelu unrhyw anghenion dysgu yn ystod cofrestru.

Ar unrhyw adeg yn ystod y siwrnai ddysgu, mae dysgwr yn gallu atgyfeirio ei hun am gefnogaeth.



## Mynd ar-lein




- **Ffurflen gofrestru ar-lein**
  Bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn gofyn i chi lenwi ffurflen gofrestru ar-lein. Rhowch wybod os hoffech chi dderbyn copi papur. Bydd tiwtoriaid wrth law i'ch cefnogi i lenwi'r ffurflen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob adran ac os byddwch angen unrhyw gefnogaeth - gydag unrhyw beth, yna gadewch i ni wybod.

- **Microsoft Teams**
  Mae canllaw ar-lein da iawn ar gael yn y ddolen ganlynol:
  https://learn.microsoft.com/en-us/

- **Zoom**
  Llawer o sesiynau tiwtorial ar ddefnyddio zoom, ewch i
  https://learn-zoom.us/show-me

## Cymorth ariannol

Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau ac arbenigwyr i sicrhau fod gennych fynediad i'r cyngor a chefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Gweler y ddogfen gymorth ariannol yn yr adran 'dogfennau defnyddiol'.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gall y gefnogaeth gynnwys:

- ✓ Cyngor ac atgyfeiriadau i ystod o asiantaethau arbenigol sy'n gallu eich cefnogi
- ✓ Offer cynorthwyol a chefnogaeth symudol
- ✓ Trefniadau mynediad i arholiad neu ostyngiadau
- ✓ Cymorth gyda gwaith cwrs a gwaith cartref
- ✓ Cymorth gyda dysgu o fewn a'r tu allan i'r dosbarth.
- ✓ Cefnogaeth tiwtorial gyda thiwtor cwrs
- ✓ Cefnogaeth a gwybodaeth lles
- ✓ Lles
- ✓ Cofnodwyr nodiadau neu recordiad ar dâp os byddwch yn cael unrhyw anhawster yn cymryd nodiadau
- ✓ Cefnogaeth gyfathrebu Iaith Arwyddion Prydain
- ✓ Dyfeisiau clyw cynorthwyol os oes gennych nam ar y clyw
- ✓ Meddalwedd ac adnoddau arbenigol, cynorthwyol neu alluogi

**Nid yw hon yn restr lawn ond dylai roi syniad i chi y gallwn helpu, ac os na allwn yna byddwn yn adnabod rhywun sy'n gallu!**

*Gallwch gael mynediad i unrhyw un o'r gwasanaethau uchod mewn sawl ffordd:*

- ⇨ Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen gofrestru
- ⇨ Siaradwch gyda'ch tiwtor, fydd yn gallu gofyn am gefnogaeth ar eich rhan
- ⇨ Cysylltwch â ni ar unrhyw adeg yn ystod eich cwrs

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07584 335409 (Michelle)

E-bost: acl@wrexham.gov.uk

*Ar gyfer preswylwyr Sir y Fflint a Wrecsam*

**Cadw’n Ddiogel Ar-lein**

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi holl ddysgwyr i gadw’n ddiogel ar-lein.

Mae’r rheolau diogelwch ar y rhyngrwyd hyn yn gallu helpu i’ch cadw’n ddiogel ar-lein:

- ✓ Dewiswch gyfrineiriau clyfar.
- ✓ Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.
- ✓ Cadwch olwg am sgamiau gwe-rwydo, yn arbennig pan fyddwch yn siopa ar-lein neu’n rheoli eich cyfrifon banc ar-lein.
- ✓ Gwarchodwch eich manylion personol.
- ✓ Tra’n gweithio ar-lein, byddwch yn ymwybodol o’ch amgylchedd. Tynnwch eitemau personol fel lluniau ac unrhyw beth sy’n dangos ble rydych yn byw. Gwisgwch yn addas ar gyfer dysgu a chofiwch fod gwybodaeth a rennir yn gyfrinachol i’r grŵp.




Mae gweithio ar-lein yn cynnig nifer o fanteision, fodd bynnag, mae’n rhaid i ni gyd fod yn ymwybodol o’r peryglon pan mae’n dod i fod ar-lein a dal i fyny gyda’r wybodaeth a chanllawiau diweddaraf. Am wybodaeth a chyngor ar sut i gadw’n ddiogel ar-lein, ewch i [www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

## Cefnogaeth Gofal Plant

**Gwybodaeth bellach hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:**

**Sir y flint**

https://www.dewis.wales/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=87&msclkid=a47d15c8cf7a11ecae267bae1ba664e0

**Wrecsam**

https://www.dewis.wales/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=427&msclkid=dce7b222cf7a11ec9c420a3d20234a8e